

## **Cyflwyniad rhieni a darpar rhieni – Ymgynghoriad iaith.**

Croeso arbennig iawn i chi gyd yma heno ar gyfer y noson arbennig hon. Mae'n braf gweld cymaint ohonoch wedi dod ynghyd i drafod datblygiad pwysig yn hanes yr ysgol.

I'r rhai ohonoch ddarpar rhieni hollol newydd, fe wnafl ddechrau trwy gyflwyno fy hunan sef Dr Llinos Jones, Pennaeth yr ysgol. Fe fyddwn ni yn dod i adnabod ein gilydd yn dda yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn gyntaf heno hoffem fanteisio ar y cyfle i groesawu y bobl o'm cwmpas. Mae gennym bedwar aelod o'r awdurdod sef:

Mr Rob Sully – Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Mr Gareth Morgans – Prif Swyddog Gwasanaethau Addysg

Mr Simon Davies – Rheolwr Moderneiddio Ysgolion

a Mrs Catrin Griffiths – ymgynghorydd her ERW.

Mae'r Uwch Dim Arwain hefyd yn bresennol sef:

Mr Euryn Madoc Jones – dirprwy bennaeth yr ysgol

Miss Zelda Williams a Mr Jonathan Thomas, Penaethiaid cynorthwyol yr ysgol

a Mrs Rhian Carruthers, uwch athrawes sydd hefyd yn bennaeth ar yr Adran Fathemateg.

Yma hefyd mae Mr Gari Thomas, pennaeth y gyfadran Wyddoniaeth a phennaeth yr Adran Ffiseg, Mr Tim Hayes, pennaeth dros dro yr Adran Fioleg a phennaeth y chweched dosbarth, Mrs Rhian Williams, pennaeth yr Adran Gemeg a Miss Catrin Pritchard, pennaeth Gwyddoniaeth CA3. Mrs Rhiannon Hammond yw pennaeth blwyddyn 7 ac sydd hefyd yn gyfrifol am drefniadau pontio.

Mae'n braf gweld sawl aelod o'r corff llywodraethol yma gan gynnwys y cadeirydd Mrs Lynwen Roberts.

Trwy gais y disgyblion ei hunain hefyd hoffem groesawu Joseph Peace a Siwan Howell, prif fachgen a phrif ferch yr ysgol. Maent hwythau wedi gofyn i fod yn bresennol er mwyn son am eu profiadau hwythau a chan bod llais y disgybl yn bwysig i ni yma ym Mro Myrddin, roedd yn bleser cytuno i'w cais a'u croesawu i'r cyfarfod.

Felly croeso i chi i gyd.

Ar ddiwedd y noson fe fydd hi'n bosibl i chi ofyn cwestiynau i unrhyw un o'r tîm o bobl sydd o'ch blaen ac fe wnawn ni gyd ein gorau i ateb unrhyw ymholiad neu bryder. Byddaf, serch hynny, yn gadael i Siwan a Joseph i adael gan eu bod yng nghanol rhai o arholiadau pwysicaf eu bywyd. Mae gan Joseph arholiad lefel A Mathemateg am 9.00 o'r gloch bore fory.

Rwy'n siwr eich bod i gyd erbyn hyn wedi pori trwy'r ddogfen ddrafft o'r ymgynghoriad ac rwy'n gobeithio bod y ddogfen honno wedi ateb llawer o'ch cwestiynau ac efallai rhai o'ch pryderon. Os nad ydych chi wedi gweld y ddogfen ddrafft mae copi ohoni ar gael ar wefan yr ysgol yn y ddwy iaith a chopiau caled ar gael yma heno. Mae'r ddogfen yn nodi ein bwriad fel ysgol i symud ymlaen yn naturiol i newid categori iaith yr ysgol o fis Medi 2016.

I gyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Sir Gaerfyrddin, dymuniad yr ysgol yw symud ar hyd y continiwwm iaith gan ymateb i ddymuniad y Cyngor i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Sir.

Mae'r ddogfen yn nodi'r holl gamau cyfreithiol bydd angen eu dilyn yn ofalus er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer yr ysgol arbennig hon. Ac mae hon YN ysgol arbennig credwch chi fi. Rwy'n bennaeth ar yr ysgol bellach ers bron i flwyddyn a hanner ac fel y gŵyr rhai ohonoch mae fy nghysylltiad gyda'r ysgol yn mynd yn ôl dros 23 o flynyddoedd fel aelod o staff. Gallaf dystio yn hollol agored yma heno bod arwain ysgol fel hon yn fraint ac anrhydedd. Anaml y cewch chi ysgol sy'n cydweithio mor arbennig – mae gennyf Uwch Dim Arwain ysbrydoledig, staff gofalgwr a gweithgar; disgyblion talentog a disgybledig, llywodraethwyr sy'n gweithio'n ddi-flino dros yr ysgol a rhieni cefnogol. Mae wir yn fraint i gael bod yn aelod o'r teulu hwn ac fe fyddwch chi, ddarpar rieni cyn hir yn rhan o'r un gymuned; cymuned sy'n gweithio gyda'n gilydd er lles ein pobl ifanc.

Hoffem bwysleisio ar y cychwyn fel hyn, nad yw'r hyn sydd gyda ni fel ysgol ac awdurdod i'w gynnig heno yn newid mawr o gwbl erbyn hyn. Dros y ddegawd diwethaf mae'r ysgol wedi symud yn naturiol ar hyd y continiwwm iaith i gyd-fynd â Chynllun Strategol y Sir.

Ein sefyllfa bresennol yw nad oes unrhyw ddisgybl yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg ym mlynnyddoedd 7 i 10 a dim ond 10 disgybl sy'n astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Saesneg ym mlwyddyn 11. Pum mlynedd yn ôl fe wnaeth yr Adran Fathemateg newid y ffordd roeddent yn dysgu'r pwnc. Fe benderfynodd yr Adran, trwy arweinyddiaeth y Pennaeth Adran, Mrs Rhian Carruthers, i gynnig model dwyieithog o ddysgu i'r disgyblion. Roedd hyn yn golygu bod y termau yn cael eu dysgu a'u cyflwyno yn y ddwy iaith i'r disgyblion o'r cychwyn. Canlyniad hyn oedd bod y disgyblion yn hyderus iawn i ddysgu'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r niferoedd yn profi hynny.

O ran Gwyddonidaeth dim ond un grŵp o ddisgyblion sydd wedi dewis astudio trwy gyfrwng y Saesneg ym mlwyddyn 7 eleni. Yn wir mae 75.2% o'r disgyblion o flynyddoedd 7 i 11 wedi dewis astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae newid mawr wedi digwydd a hynny'n naturiol gyda chefnogaeth disgyblion a rhieni dros gyfnod o flynyddoedd ac mae'n synhwyrol, felly, i symud ymlaen ymhellach gan sefydlu'r ysgol gategori Cyfrwng Cymraeg gyntaf yn Sir Gâr.

Mae'r dabl niferoedd yn y ddogfen yn dangos yn glir i ni y newid mawr yn ystod y bedair mlynedd diwethaf o ran y ddau bwnc. Mae'r dabl yn dyst bod y galw gan rieni am ddarparu'r pynciau trwy gyfrwng y Saesneg wedi lleihau.

	Maths		Gwydd	
	Cym	Saes	Cym	Saes
7	137	0	107	30
8	159	0	105	54
9	128	0	88	40
10	132	0	84	48
11	121	10	77	44
12/13	46	33	48	58

Mae'r canlyniadau hefyd yn dyst bod disgyblion yr ysgol yn cyflawni'n well wrth astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

	2014		2013		2012	
	Cym	Saes	Cym	Saes	Cym	Saes
Mathemateg CA4 – A* - C %	80.4	41.7	81	63	85.8	52.6
Gwyddoniaeth CA4 – A* - C %	78.9	78.7	81.1	77.2	89.5	81.9

Os ydych chi yn poeni, serch hynny, am sut fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ganlyniadau Saesneg yr ysgol, does dim angen pryderu. Yn 2014 roedd ein canlyniadau Saesneg iaith TGAU yn uwch na chanlyniadau y Sir a chanlyniadau Cymru. Hefyd roedd ein canlyniadau Mathemateg 20% yn uwch na chanlyniadau Cymru. Mae'r canlyniadau felly yn dweud y cyfan.

Gan bod newid organig wedi ei amlygu yn yr ysgol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'n ddyletswydd arnom ni fel ysgol ac ar yr awdurdod i ystyried hynny ac i weithredu ar argymhellion Cynllun Strategol y Gymraeg.

Yr argymhellion a wneir yn y ddogfen yw y dylai y Cyngor Sir gefnogi unrhyw ysgol Uwchradd sy'n dymuno symud ar hyd y continiwwm iaith er mwyn sicrhau twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir.

Ni fyddai cadw'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cael ei ystyried yn ddewis addas felly o ystyried gweledigaeth y Cyngor Sir.

O ystyried y dystiolaeth a'r data pynciol mae symud ymlaen i newid categori iaith yr ysgol i gategori Cyfrwng Cymraeg yn synhwyrol a rhesymol.

Yn yr ysgol mae yma athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth o'r radd flaenaf, sy'n sicrhau canlyniadau ardderchog cyson mewn arholiadau allanol. Maent yn llwyr ymroddedig yn eu gwaith ac mae'r ddwy adran yn hyderus yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddwy adran wedi eu llwyr argyhoeddi y dylid addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig er mwyn cynnal a chodi safonau o fewn yr adrannau. Mae hyn eisoes yn digwydd yn yr Adran Fathemateg a'r canlyniadau ardderchog yn dyst bod addysgu trwy un iaith yn unig yn sicr yn fanteisiol. Mae'r ddwy adran o'r farn bod cyflwyno'r pynciau trwy gyfrwng un iaith yn unig yn decach i'r disgyblion a'r adran.

Y cynnig yw, o'r 1af o Fedi 2016 y bydd pob un o'r disgyblion a fydd yn ymuno â chymuned Ysgol Bro Myrddin yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ymhob pwnc onibai am Saesneg. Ni fydd disgyblion presennol yr ysgol yn cael eu heffeithio o gwbl gan y newidiadau.

O dan y drefn newydd, y Gymraeg fydd cyfrwng y dysgu ym Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a thechnoleg gwybodaeth cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, mathemategol a gwyddonol y disgyblion. Rydym yn awyddus nawr i ddatblygu y model dwyieithog a ddefnyddir yn llwyddiannus iawn gan yr Adran Fathemateg, ac eisoes mae'r Adran Wyddoniaeth yn paratoi ar gyfer yr her. Mae pob darpar rhiant i ddisgyblion blwyddyn 6 eleni eisoes wedi derbyn y daflen sy'n esbonio sut yr ydym bellach yn dysgu'r ddau bwnc.

Bydd pob gwers 60 munud yn cael ei threfnu yr un fath. Am y 5 munud cyntaf fe fydd cyflwyniad yn y Gymraeg a'r Saesneg o'r holl dermau a'r cysyniadau Mathemategol a Gwyddonol a ddefnyddir yn y wers. I ddilyn am 50 munud, Cymraeg fydd prif gyfrwng y wers o ran y dysgu a'r addysgu. Yna am 5 munud, i gloi'r wers, bydd casgliad dwyieithog er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn deall cynnwys y wers. Fe fyddwn ni, felly, yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pwnc trwy gyfrwng y ddwy iaith. Bydd y model yma yn fodd i ddatblygu dwyieithrwydd cyflawn y disgyblion gan sicrhau eu bod yn hyderus yn y ddwy iaith. O ran y drefn hon, bydd elfen gref o drawsieithu'n digwydd lle bydd disgyblion yn ystyried y cynnwys pynciol yn y ddwy iaith, a bydd hyn yn fodd i atgyfnerthu eu deallusrwydd o gysyniadau mathemategol a gwyddonol.

Ar y sgrin mae enghreifftiau o'r ffordd mae'r adran Wyddoniaeth yn cyflwyno'r termau i ddisgyblion blwyddyn 8. Ymhob cynllun gwaith mae geirfa allweddol yn cael eu hesbonio yn y Gymraeg a'r Saesneg a gweithgareddau cyflwyno gwybodaeth hefyd

yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog fel y gwelwch ar y sgrin. Mae'r termau hefyd yn cael eu hatgyfnerthu ar lafar yn y gwersi.

Mae pennaeth Gwyddoniaeth CA3 Miss Catrin Pritchard eisoes yn paratoi'r deunyddiau ac yn eu defnyddio gyda'r disgyblion ers blwyddyn bellach. Astudiodd Miss Pritchard wyddoniaeth a mathemateg trwy'r Gymraeg, fel disgybl o ysgol gyfun Rhydywaun ac yn yr ysgol honno, fel gweddill ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau mae Gwyddoniaeth a Mathemateg wastad wedi cael eu dysgu mewn un iaith yn unig, sef y Gymraeg a chanlyniadau'r ysgolion hynny megis Glantaf, Llanhari, Bro Morgannwg a Phlasmawr yn brawf o lwyddiant yr addysgu.

Fe fydd yr arfer o gyflwyno'r termau'n ddwyieithog yn cael ei ddatblygu drwy'r ysgol wrth i'r disgyblion symud o flwyddyn 7 ymlaen. Gyda arholiadau allanol TGAU a Lefel A fe fydd gan pob disgybl fynediad i'r termau yn y ddwy iaith. Dyna ein addewid ni fel ysgol. Fe fydd y disgyblion yn sicr yn elwa o'r model dwyieithog yma.

Mantais arall yw y bydd sefydlu grwpiau Cymraeg yn unig yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu gosod mewn grwpiau o'r un gallu ac, felly, yn academiaidd fe fydd hyn yn fanteisiol. Fe fydd y grwpiau yn adlewyrchu gallu'r disgybl ar draws y garfan gyfan, yn hytrach na dim ond ar draws y cyfrwng iaith. Mae setiau cyfrwng Saesneg yn fwy tebygol o gynnwys disgyblion o allu cymysg iawn.

Rydym ni i gyd yn gwybod am fanteision dwyieithrwydd a lluo o addysgwyr wedi nodi bod plant dwyieithog yn fwy galluog ac yn fwy hyblyg yn ieithyddol. Nid yw plant llai galluog yn dioddef mewn unrhyw ffordd trwy dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg yn bennaf chwaith. Fe wyddom hefyd bod plant sydd yn meddu ar ddwy iaith yn medru dysgu ieithoedd eraill yn haws, yn medru manteisio'n llawn ar fyw mewn cymuned ddwyieithog ac yn meddu ar gymhwyster pendant yn y farchnad am swyddi. Mae dadansoddi canlyniadau arholiadau Cymru yn dangos i ni bod perfformiad plant sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn gyson uwch na pherfformiad eu cymheiriaid cyfrwng Saesneg.

Rwy'n ymwybodol bod llawer yn pryderu bod astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystro mynediad i addysg uwch, yn arbennig yn Lloegr. Nid oes unrhyw brawf o hynny'n bodoli. Mae llawer o'n cyn-ddisgyblion sy'n feddygon, yn fil-feddygon a deintyddion wedi astudio Gwyddoniaeth yn yr ysgol hon trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgyblion ysgolion Cymraeg megis Glantaf, Plasmawr, Bro Morgannwg, Llanhari, Y Cymer, Morgan Llwyd, Rhydywaun a Gartholwg yn flynyddol yn mynd i brifysgolion yng Nghymru a Lloegr i astudio cyrsiau meddygol, ac nid oes unrhyw brawf bod y ffaith eu bod wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig wedi amharu ar eu cyfleoedd. Rhaid cofio, wrth gwrs nad trwy'r Saesneg yr astudiodd rhai o wyddonwyr mwya'r byd – Marie Curie, Einstein a Pasteur.

Wrth gyflwyno pawb ar ddechrau'r noson fe wnes i sôn yn arbennig am ein prif ddisgyblion eleni sef Siwan Howell a Joseph Peace. Soniais hefyd bod y ddau wedi gofyn i siarad heno. Fe wnaif drosglwyddo, felly, i Siwan a Joseph. Diolch i chi eich dau am eich sylwadau ac am rannu eich profiadau gyda ni heno. Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am eich holl waith fel prif swyddogion ac i ddymuno'n dda i chi yn eich dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad, wrth gwrs, yn broses hir, cymhleth a chyfreithiol ac mae'r amserlen a'r trefniadau i gyd wedi eu hesbonio i chi yn y ddogfen. Nod y noson hon yw cyflwyno'r ddogfen ddrafft ar eich cyfer. Os bydd y cyngor sir yn penderfynu symud ymlaen gyda'r newid yna bydd modd i chi fynegi barn rhwng Hydref yr 19<sup>eg</sup> a Rhagfyr y 4<sup>ydd</sup>. Gallwch fynegi barn trwy ysgrifennu llythyr neu trwy lenwi'r ffurflen ymateb a geir yn Atodiad C o'r ddogfen erbyn Rhagfyr y 4<sup>ydd</sup>, 2015 fan bellach. Mae gweddill y trefniadau i gyd yn cael eu hesbonio'n fanwl yn y ddogfen.

Rwy'n hyderus ar ôl i chi wrando heno, ar fy ngeiriau i a geiriau'r ddau brif ddisgybl eich bod yn gallu gweld nad oes angen i neb boeni nac ofni gweld yr ysgol yn newid categori iaith. Mae'r newid eisoes wedi digwydd ac fe fyddwn ni fel ysgol yn sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei roi o dan anfantais. Mae llawer o'n disgyblion eisoes yn astudio gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cynradd, cam naturiol yw parhau gyda'r addysg honno yn yr Uwchradd. Nid dysgu termau trwy un iaith yn unig fydd yn cael ei wneud ond bydd y 'model dwyieithog' yn cael ei ddatblygu ymhellach – model y bydd pob plentyn yn elwa'n aruthrol ohono.

Dyma gyfle gyfeillion i Sir Gar i arwain y ffordd yng Ngorllewin Cymru ac i Fro Myrddin i greu hanes trwy sefydlu yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Sir Gar.

Rwy'n awyddus i unrhyw un sydd yn dymuno gofyn cwestiwn neu i fynegi unrhyw bryder i aros yn y neuadd i drafod gydag unrhyw un ohonom sydd yn eistedd yn y blaen fan hyn. Fe wnawn ni ein gorau i ateb eich pryderon.

Gaf fi ddiolch unwaith eto i chi gyd am ddod atom heno a siwrnai saff i chi adref.